**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Carcasau Defaid (Dosbarthu ac Adrodd am Brisiau) (Cymru) 2025**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran Newid Hinsawdd a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru, ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Carcasau Defaid (Dosbarthu ac Adrodd am Brisiau) (Cymru). Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Huw Irranca-Davies AS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**

**23 Medi 2025**

## RHAN 1

## Disgrifiad

1. Bydd Rheoliadau Carcasau Defaid (Dosbarthu ac Adrodd am Brisiau) (Cymru) 2025 ("y Rheoliadau") yn sicrhau bod y farchnad ddefaid yn gweithredu gyda mwy o dryloywder fel y bydd cynhyrchwyr yn deall a ydynt yn derbyn pris teg am eu hanifeiliaid a laddwyd. Mae'r rheoliadau hyn yn gosod rhwymedigaethau ar weithredwyr lladd-dai mwy (lladd-dai rheoleiddiedig sy'n lladd o leiaf 2,000 o ddefaid yr wythnos fel cyfartaledd blynyddol treigl) i ddosbarthu carcasau defaid o ddefaid llai na 12 mis oed gan ddefnyddio graddfa ragnodedig i asesu dosbarth braster a chydffurfiad (siâp).

   Rhaid i'r gweithredwyr hyn sicrhau bod carcasau defaid yn cael eu cyflwyno mewn ffordd gyson ar ôl eu lladd ar y pwynt pwyso a dosbarthu. Bydd yn ofynnol i'r gweithredwyr hyn adrodd yn wythnosol am ddata prisiau yn ôl dosbarthiad carcasau ar gyfer defaid unigol sy'n llai na 12 mis oed a gyflenwir i'w lladd. Mae adrodd am brisiau yn ffordd o gasglu data ar y farchnad y gellir eu defnyddio ar gyfer llunio polisi, ac ar gyfer gwaith blaengynllunio cynhyrchwyr da byw a rhannau eraill o'r gadwyn gyflenwi. Bydd y prisiau cyfanredol a adroddir yn cael eu cyhoeddi a'u defnyddio i fonitro'r farchnad.

2. Ar hyn o bryd mae pedwar lladd-dy yng Nghymru a fyddai'n ddarostyngedig i'r Rheoliadau.

## Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

3. Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru â'r diwydiant yn 2018 ac ar y cyd ag Adran yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn Lloegr (DEFRA) yn 2024 ar gyflwyno deddfwriaeth mewn perthynas â Dosbarthu Carcasau Defaid ac Adrodd am Brisiau gyda chynigion i gyd-fynd mor agos â phosibl â deddfwriaeth debyg sydd eisoes ar waith ar gyfer cig eidion a moch (gweler paragraffau 21 i 34).

4. Gwnaed Rheoliadau Carcasau Defaid (Dosbarthu ac Adrodd am Brisiau) (Lloegr) 2025 ("Rheoliadau Lloegr") ar 9 Gorffennaf 2025 a bydd rheoliadau Cymru yn cael effaith ymarferol ar yr un dyddiad â Rheoliadau Lloegr i sicrhau parhad ar draws y ddwy wlad.

## Y cefndir deddfwriaethol

5. Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 25(2), 32(1) a 35(1) a (2) o Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023.

6. Mae adran 25(2) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i berson sydd mewn cadwyn gyflenwi bwyd-amaeth, neu sydd â chysylltiad agos â chadwyn gyflenwi o’r fath, ddarparu gwybodaeth am faterion sy’n gysylltiedig ag unrhyw un neu ragor o weithgareddau’r person y mae cysylltiad rhyngddynt â’r gadwyn gyflenwi, i’r graddau y mae’r gweithgareddau yn cael eu cynnal yng Nghymru.

7. Mae adran 32(1) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth ar gyfer gorfodi gofyniad a osodir o dan adran 25(1).

8. Mae adran 35(1) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth ynghylch dosbarthiad, dull adnabod a chyflwyniad carcasau gwartheg, moch a defaid gan ladd-dai yng Nghymru.

9. Mae adran 35(2) yn nodi y caiff y rheoliadau hynny gynnwys darpariaeth ynghylch gorfodi i gynnwys (ymhlith pethau eraill) y materion a nodir yn y ddarpariaeth honno.

10. Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud o dan weithdrefn gadarnhaol y Senedd yn unol ag adran 50(6) o Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023.

**Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael**

11. Mae cynlluniau gorfodol ar gyfer dosbarthu carcasau ac adrodd am brisiau wedi bod ar waith yn y sectorau cig eidion a phorc ers blynyddoedd lawer. Bwriad cyflwyno cynllun gorfodol ar gyfer y sector defaid yw sicrhau bod y sector defaid yn cyd-fynd mor agos â phosibl â'r sectorau hynny. Mae rhai lladd-dai unigol sy'n lladd defaid wedi mabwysiadu system gyffredin ar gyfer ddosbarthu carcasau defaid yn wirfoddol ers amser maith, ac mae rhai hefyd wedi adrodd am brisiau’n wirfoddol i'r Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (“AHDB”).

12. Mae llawer o ladd-dai wedi gosod eu safonau eu hunain ar gyfer tocio a chyflwyno carcasau defaid i'w dosbarthu a'u pwyso. O ganlyniad, mae gweithredu gwahanol systemau yn wirfoddol yn golygu nad oedd cysondeb o ran pwysau carcasau ar draws y sector. Arweiniodd amrywiadau yn y ffordd mae carcasau yn cael eu cyflwyno at bwysau gwahanol ar gyfer carcasau a fyddai fel arall yn debyg, ac at gofnodi neu ddyfynnu prisiau nad oes modd eu cymharu. O ganlyniad, roedd ffermwyr defaid yn aml yn cael trafferth trafod taliad priodol am ansawdd eu carcasau, neu gael y manylion angenrheidiol sydd eu hangen arnynt i lywio eu penderfyniadau busnes a chynyddu cynhyrchiant.

13. Rhaid i'r lladd-dai rheoleiddiedig fanylu ar ganlyniadau dosbarthu, pwysau a manyleb cyflwyno carcasau sy'n berthnasol i bob carcas pan fyddant yn adrodd am y pris. Gall lladd-dai sy'n lladd rhwng 1,000 a 1,999 o ddefaid yr wythnos fel cyfartaledd blynyddol treigl, ddewis optio i mewn i'r system orfodol drwy roi hysbysiad i Weinidogion Cymru o'u bwriad i wneud hynny,

ac os felly mae'n rhaid iddynt fodloni gofynion y Rheoliadau. Bwriad y dull gweithredu o'i wneud yn orfodol i ladd-dai sy'n lladd o leiaf 2,000 o ddefaid yr wythnos fel cyfartaledd blynyddol treigl yw dal cyfran uchel o'r defaid a laddwyd, gan osgoi ychwanegu beichiau rheoleiddiol a gweinyddol ychwanegol ar ladd-dai llai.

14. Rydym yn rhag-weld y bydd rhai busnesau eisiau defnyddio dulliau dosbarthu carcasau defaid awtomataidd. Daw darpariaethau sy'n ymwneud â dulliau dosbarthu awtomataidd i rym ar 12 Chwefror 2027, yn hwyrach na gweddill y Rheoliadau ar 28 Ionawr 2026. Mae'r oedi hwn yn angenrheidiol oherwydd nad oes data addas o ran dosbarthu carcasau drwy edrych arnynt ar hyn o bryd ledled y DU i ddarparu'r sampl data angenrheidiol er mwyn gallu asesu ac awdurdodi dulliau dosbarthu awtomataidd. Er mwyn unioni hyn, bydd data dosbarthu carcasau drwy edrych arnynt yn cael eu casglu ledled y DU yn ystod y cyfnod cychwynnol ar ôl i'r Rheoliadau ddod i rym. Gellir defnyddio'r data hyn wedyn i sefydlu sampl gynrychioliadol o garcasau defaid y DU, y gellir profi, asesu ac, os yw'n briodol, cymeradwyo dulliau dosbarthu awtomataidd arnynt.

15. Yng Nghymru, mae swyddogion yn ymwybodol o un lladd-dy sydd â system raddio awtomataidd ar waith, ond nid yw'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd ar gyfer graddio ŵyn.

16. Bydd y Rheoliadau hyn yn cael eu gweithredu yn unol â deddfwriaeth debyg sydd eisoes wedi'i chyflwyno gan DEFRA yn Lloegr a'r rhai sy'n cael eu hystyried yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

17. Mae nodau perthnasol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cynnwys gwneud Cymru'n ffyniannus – datblygu economi wledig sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn darparu cyfleoedd cyfartal a gwlad sy'n ecolegol, economaidd a chymdeithasol wydn.

## Ymgynghori

18. Yn 2018, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru â'r diwydiant ar gyflwyno deddfwriaeth mewn perthynas â Dosbarthu Carcasau Defaid ac Adrodd am Brisiau [1] gyda chynigion i gyd-fynd mor agos â phosibl â deddfwriaeth debyg sydd eisoes ar waith ar gyfer cig eidion a moch. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ochr yn ochr â DEFRA a Llywodraeth yr Alban tra bod DAERA wedi ymgynghori yn ystod 2021/2022.

19. Roedd hyn mewn ymateb i dystiolaeth gref a gyflwynwyd gan y diwydiant mewn Galwad am Dystiolaeth gan Lywodraeth y DU ar gylch gwaith Dyfarnwr y Cod Cyflenwi Nwyddau Groser ar yr angen am ddeddfwriaeth o'r fath. Roedd deddfwriaeth ar gyfer Dosbarthu Carcasau ac Adrodd am

Brisiau yn y sectorau cig eidion a moch yn orfodol o dan Gyfraith yr UE, ond yn opsiynol ar gyfer defaid.

20. Mae'r ymgynghoriad hwnnw wedi dangos bod y diwydiant am weld trefn ddosbarthu ar gyfer defaid a'i gwneud yn orfodol hefyd adrodd am brisiau i'r cynhyrchydd. Bydd hyn yn galluogi mwy o dryloywder ac yn gwella tegwch a phris. Cytunodd Llywodraeth Cymru i gynnal gwaith ymgysylltu pellach mewn perthynas â'r wybodaeth sy'n cael ei hadrodd i gynhyrchwyr gan broseswyr a chyrff ardoll, ac i weithredu'r fframwaith deddfwriaethol sydd ei angen i fod yn sail i'r gwaith o'i gwneud yn orfodol dosbarthu carcasau defaid yng Nghymru.

21. Gohiriwyd cyflwyno'r polisi ym mhob un o'r pedair gwlad oherwydd y pandemig COVID byd-eang ac effaith y rhyfel yn Wcráin. Yn ogystal, gyda'r DU wedi pleidleisio ers hynny i adael yr UE, cydnabuwyd bod yr amgylchiadau a oedd yn sail i'r ymgynghoriad cychwynnol wedi newid, a chytunwyd i ailadrodd yr ymgynghoriad.

**Ymgynghoriad wedi'i Dargedu**

22. Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru a DEFRA ar y cyd â rhanddeiliaid ar gynigion ynghylch cynllun gorfodol ar gyfer dosbarthu carcasau ac adrodd am brisiau pwysau marw ar gyfer y sector defaid, ac ar y mecanweithiau ar gyfer awdurdodi dulliau dosbarthu awtomataidd y gellid eu defnyddio ar gyfer dosbarthu carcasau cig eidion a defaid mewn lladd-dai sy'n lladd y rhywogaethau hyn. Roedd hwn yn ymgynghoriad wedi'i dargedu chwe wythnos o hyd a gaeodd ym mis Mawrth 2024.

23. Roedd yr ymgynghoriad wedi'i dargedu at sefydliadau sy'n cynrychioli ffermwyr, lladd-dai, proseswyr a gweithgynhyrchwyr technoleg graddio carcasau awtomataidd. Gofynnwyd am farn ar gynigion ar gyfer cynllun gorfodol ar gyfer dosbarthu ac adrodd am brisiau pwysau marw i'r sector defaid, ac ar y mecanweithiau ar gyfer awdurdodi dulliau graddio awtomataidd y gellid eu defnyddio yng Nghymru a Lloegr ar gyfer dosbarthu carcasau cig eidion a defaid mewn lladd-dai sy'n lladd y rhywogaethau hyn.

24. Gan fod yr ymgynghoriad wedi'i dargedu at randdeiliaid penodol, ni chyhoeddwyd yr ymgynghoriad a'r crynodeb o'r ymatebion ar-lein ond fe'u hanfonwyd at y rhanddeiliaid penodol hynny yn unig ac maent ar gael ar gais.

25. Cafwyd cyfanswm o 17 o ymatebion i'r ymgynghoriad; 11 drwy'r arolwg ar-lein a 6 ymateb ysgrifenedig.

26. Roedd yr ymatebwyr yn cynnwys undebau ffermio, cymdeithasau defaid a chig eidion, AHDB, Hybu Cig Cymru (HCC), lladd-dai a phroseswyr.

27. Roedd y sylwadau a ddaeth i law ar y cynnig hwn yn gyffredinol yn gefnogol gan y bydd hyn yn darparu mwy o dryloywder ar draws y gadwyn gyflenwi i ffermwyr ac yn darparu meincnod ar gyfer y diwydiant. Ar ben hynny, roedd

y rhai a gytunodd â'r cynnig yn cydnabod y manteision y bydd y cynnig hwn yn eu cyflwyno wrth greu a chynnal marchnad gryfach i'r diwydiant yn gyffredinol.

28. Rhoddodd ymatebwyr awgrymiadau hefyd am wella a mireinio rhai o'r cynigion.

29. Yn benodol, er bod mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno â chynnig ar gyfer awdurdodi dulliau dosbarthu defaid awtomataidd, dywedodd nifer fach o ymatebwyr fod ganddynt bryderon ynghylch gohirio defnyddio'r dechnoleg dosbarthu awtomataidd bresennol (h.y. Dadansoddi Delweddau Fideo), oherwydd yr angen i'r llywodraeth gasglu digon o ddata am sector defaid y DU cyn y gellir profi'r dull hwn i wirio a yw'n bodloni'r meini prawf gofynnol.

30. Roedd y sylwadau hefyd yn tynnu sylw bod rhai ymatebwyr yn pryderu am y goblygiadau ariannol posibl pe bai lladd-dai yn optio i mewn, yn benodol ynghylch costau rhedeg a gweithrediadau'r lladd-dai hynny. Fodd bynnag, i'r rhai o dan y trothwy llif gorfodol, mae optio i mewn yn wirfoddol ac yn fater i'r busnesau hynny benderfynu arno.

31. Cynhaliodd DAERA yng Ngogledd Iwerddon a Llywodraeth yr Alban ymgyngoriadau ar wahân ar gynigion i gyflwyno deddfwriaeth debyg. ymgynghoriad-dosbarthu-carcasau-defaid

**Canllawiau**

32. Bydd yr Asiantaeth Taliadau Gwledig (RPA) yn diweddaru'r canllawiau presennol sydd ar gael ar Gov.UK cyn y dyddiad cychwyn cyntaf i gynnwys y gofynion dosbarthu carcasau defaid ac adrodd am brisiau a gynhwysir yn y Rheoliadau hyn.

33. Mae Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar waith ar hyn o bryd rhwng Llywodraeth Cymru, DEFRA ac RPA i amlinellu gofynion, rolau a chyfrifoldebau'r holl archwiliadau Cynllun Technegol Cig (MTS) yng Nghymru a Lloegr.

34. Mae'r canllawiau ar gyfer lladd-dai yn Lloegr ar adrodd am brisiau defaid pwysau marw wedi mynd yn fyw a byddant yn cael eu diweddaru i gynnwys Cymru pan fydd y Rheoliadau wedi'u gosod.

**RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL**

1. Prif nod y polisi yw mynd i'r afael â mater hirhoedlog tegwch yn y gadwyn gyflenwi. Mae cynlluniau gorfodol ar gyfer dosbarthu carcasau ac adrodd am brisiau wedi bod ar waith yn y sectorau cig eidion a phorc ers blynyddoedd lawer.

2. Bydd sicrhau bod y diwydiant defaid yn cyd-fynd â'r sectorau hyn yn arwain at farchnad ddefaid fwy tryloyw, cynhyrchiol ac effeithlon, gan annog cynhyrchwyr i wella cynhyrchiant ac i fagu defaid i fodloni manylebau'r farchnad a galw defnyddwyr yn well. I wneud hyn, rydym yn bwriadu adlewyrchu (gyda rhai diwygiadau i ystyried gwahaniaethau yn y farchnad ddefaid) y rheoliadau cig eidion a moch presennol, sy'n gosod trefn orfodol ar gyfer dosbarthu ac adrodd am brisiau ar ladd-dai mwy sy'n lladd gwartheg a moch.

*Data Defaid*

3. Pan gyflwynwyd y broses awdurdodi dulliau graddio awtomataidd ar gyfer gwartheg, roedd data presennol ar ddosbarthiad carcasau gwartheg yn y DU i'w rhannu gyda'r diwydiant i adeiladu algorithmau, gan fod adrodd ar ddosbarthiadau â llaw wedi bod yn orfodol ers sawl blwyddyn. Fodd bynnag, nid oes data tebyg ar gael yn y DU ar gyfer y sector defaid ar hyn o bryd. Er mwyn galluogi gwaith casglu'r data gofynnol am ddiadell ddefaid y DU, sy'n adlewyrchu'n gywir y sampl gynrychioliadol o garcasau ar gyfer y prawf awdurdodi ar gyfer dulliau graddio awtomataidd, dim ond dosbarthu carcasau â llaw a ganiateir am gyfnod tra bod blwyddyn o ddata diadell yn cael eu casglu. Wedi hynny, bydd dulliau graddio defaid awtomataidd ar gael.

4. Lluniodd y Gwasanaeth Datblygu a Chynghori Amaethyddol (ADAS), ar ran Llywodraeth Cymru, Asesiad Effaith Rheoleiddiol ("RIA") gan gynnal cyfweliadau wyneb yn wyneb â chysylltiadau perthnasol yn y pedwar prif ladd-dy defaid yng Nghymru ac roedd yr RIA yn asesu effeithiau ariannol ac ymarferol y cynigion.

5. Mae'r adborth cyffredinol yn awgrymu nad yw lladd-dai yr effeithir arnynt yn disgwyl unrhyw gostau sylweddol i weithredu'r gwaith dosbarthu carcasau ac adrodd am brisiau.

**Yr Opsiynau**

6. **Opsiwn 1: Busnes fel Arfer: Hunanreoleiddio**

   Gallai lladd-dai barhau i gael cyfrifoldeb am adrodd am eu canlyniadau dosbarthu eu hunain. Yn yr achos hwn, bydd rhai lladd-dai yn parhau i raddio carcasau gan ddefnyddio'r grid dosbarthu (S)EUROP a gall rhai ohonynt adrodd am brisiau'n wirfoddol. Fodd bynnag, mae lladd-dai eraill yn debygol o barhau i ddefnyddio neu fabwysiadu technegau dosbarthu

ansafonol neu beidio ag adrodd am brisiau gan arwain at ddiffyg tryloywder ynghylch prisio, dosbarthiad a manyleb carcas. Yn ogystal, mae'r her gyda'r sefyllfa bresennol hefyd yn deillio o ddiffyg unffurfiaeth a chysondeb yn y ffordd mae carcasau'n cael eu cyflwyno ymhlith lladd-dai unigol. O ganlyniad, mae'n bosibl nad oes modd cymharu pwysau'r carcasau oherwydd amrywiadau o ran y ffordd mae carcasau wedi'u tocio a'u cyflwyno, gan arwain at brisiau na ellir eu cymharu yn cael eu dyfynnu neu eu cofnodi. Ni fyddai hyn hefyd yn cyd-fynd â'r rheoliadau presennol yn y diwydiant cig eidion a moch.

7. **Opsiwn 2: Rheoleiddio lladd-dai mwy yn unig (Yr opsiwn a ffefrir)**

   Fel y disgrifir uchod, lle bydd yn orfodol i ladd-dai sy'n lladd o leiaf 2,000 o ddefaid yn wythnosol ar gyfartaledd, ymhlith newidiadau eraill, hysbysu eu cyflenwyr am ganlyniadau dosbarthu defaid gan ddefnyddio'r raddfa (S)EUROP ac adrodd am brisiau. Mae cyfran sylweddol o'r lladd-dai mwy eisoes yn meddu ar y gallu i fodloni'r gofynion hyn, felly bydd y baich rheoleiddiol y mae'n ei gyflwyno yn gyfyngedig.

8. **Opsiwn 3: Rheoleiddio ychwanegol**

   Gellid ymestyn yr opsiwn a ffefrir fel ei fod yn ofynnol i weithredwyr ar raddfa lai, sy'n lladd rhwng 1,000 a 1,999 o ddefaid yn wythnosol ar gyfartaledd, hefyd gydymffurfio â'r rheoliadau newydd am ddosbarthu ac adrodd am brisiau. Mae hyn yn groes i'r opsiwn a ffefrir lle mae gan y lladd-dai hyn y penderfyniad i optio i mewn i reoliadau newydd drwy hysbysu Gweinidogion o'u bwriad i wneud hynny. Bydd yr opsiwn hwn yn gosod costau mawr ar ladd-dai islaw trothwy'r llif o 2,000.

9. **Opsiwn 4: Rheoleiddio rhannol (Adrodd am brisiau yn unig)**

   Opsiwn arall yw canolbwyntio ar ddeddfwriaeth ar adrodd am brisiau ac nid dosbarthu. Ystyriwyd yr opsiwn hwn gan y gallai arbed ar gostau i ladd-dai mawr (a lladd-dai llai a allai benderfynu optio i mewn), megis osgoi costau hyfforddi dosbarthu carcasau. Er hynny, byddai angen costau ymgyfarwyddo â'r gofynion newydd a newidiadau meddalwedd i systemau cyfrifiadurol o hyd i hwyluso'r gwaith o adrodd am brisiau. Fodd bynnag, mae'r prif fater yn deillio o ladd-dai na fyddent yn adrodd ar yr un nodweddion o ran carcasau defaid.  Am y rheswm hwn, mae'r opsiwn hwn

wedi cael ei wrthod ac ni chafodd ei asesu ymhellach.

10. **Costau a manteision**

**Opsiwn 1: Busnes fel Arfer**

- Dyma'r opsiwn llinell sylfaen, ac felly nid oes unrhyw gostau na manteision ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

**Opsiwn 2: Rheoleiddio lladd-dai mwy yn unig (yr opsiwn a ffefrir)**

- Bydd yn orfodol i ladd-dai sy'n lladd dros 2,000 o ddefaid yn wythnosol ar gyfartaledd, ymhlith newidiadau eraill, hysbysu eu cyflenwyr am y cynlluniau dosbarthu ar gyfer defaid gan ddefnyddio'r raddfa (S)EUROP ac adrodd am brisiau.

- Yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan yr Asiantaeth Taliadau Gwledig (RPA), byddai pedwar lladd-dy yng Nghymru, allan o 14, yn ddarostyngedig i'r ddeddfwriaeth newydd a byddent yn cwmpasu tua 95.51% o ŵyn a brosesir yng Nghymru ac mae 2 o'r 4 eisoes yn bodloni gofynion y cynlluniau carcasau cig eidion tebyg.

- Ni fydd yr Opsiwn a Ffefrir yn gosod costau'n uniongyrchol ar ladd-dai sydd â llif wythnosol o lai na 2,000 o ddefaid gan fod y lladd-dai hyn wedi'u hesemptio o'r rheoliad. Nid oes costau uniongyrchol hefyd yn cael eu gosod ar ffermwyr na chwsmeriaid lladd-dai.

Costau Ymgyfarwyddo

- Mae costau ymgyfarwyddo a ysgwyddir gan y busnes yn helpu gweithwyr lladd-dai i ymgyfarwyddo â'r rheoliadau newydd. Ar gyfer lladd-dai sydd eisoes yn dilyn y rheoliadau hyn ar gyfer gwartheg, mae'r costau hyn yn debygol o fod yn is oherwydd bydd ganddynt brofiad eisoes o ddefnyddio'r system yn eu gweithrediadau o ddydd i ddydd. Mae'r costau hyn yn cynrychioli'r senario cost amcangyfrifedig gorau.

- Y gost ymgyfarwyddo yw tua £125 fesul lladd-dy. Mae'r amcangyfrif hwn yn seiliedig ar bob lladd-dy angen pedair awr i ddod yn gyfarwydd â'r gofynion newydd. Felly, cyfanswm y gost ymgyfarwyddo ar gyfer y pedwar lladd-dy sydd â llif wythnosol o dros 2,000 o ddefaid yr wythnos yw £500. Bydd y gost hon yn cael ei hysgwyddo yn y flwyddyn gyntaf yn unig.

Costau ailhyfforddi

- Bydd hefyd cost uniongyrchol gychwynnol i ladd-dai ailhyfforddi staff i gydymffurfio â'r rheoliadau newydd. Mae gan ladd-dai cig eidion mwy i gyd ddosbarthwyr mewnol a hyfforddwyd sydd wedi'u trwyddedu fel rhai

cymwys gan yr RPA i gyflawni dyletswyddau dosbarthu cig eidion.

- Mae lladd-dai nad ydynt yn lladd gwartheg nac yn allanoli gwaith dosbarthu yn debygol o wynebu mwy o gostau ailhyfforddi dros broses hirach.

- Rhagwelir y bydd angen i bob lladd-dy ailhyfforddi rhwng un a thri o weithwyr ac y bydd yr hyfforddiant yn cymryd tua dau ddiwrnod. Mae'r gost i hyfforddi pob gweithiwr oddeutu £610, ac mae hyn yn cynnwys costau cyflog a chostau nad ydynt yn gyflog. Felly, mae'r gost ailhyfforddi fesul lladd-dy rhwng £610 a £1,830. Ar gyfer y pedwar lladd-dy, cyfanswm y gost ailhyfforddi yw rhwng £2,440 a £7,320. Unwaith eto, bydd y gost hon yn cael ei hysgwyddo yn y flwyddyn gyntaf yn unig.

<u>Costau Archwilio</u>

- Bydd cost archwilio barhaus i ladd-dai. Amcangyfrifodd yr RPA fod cyfanswm costau amser a gweinyddu i fusnesau lladd-dy yn £400 (amcangyfrif ar y raddfa uchel) yn y drefn honno fesul ymweliad. Mae'r costau hyn yn cynrychioli'r senario cost amcangyfrifedig gorau. Oherwydd bod rhai lladd-dai eisoes yn cael eu harchwilio ar gyfer lladd gwartheg, mae'r costau hyn yn debygol o fod yn or-amcangyfrif.

- Gan dybio y bydd pob lladd-dy yn cael ei archwilio chwe gwaith y flwyddyn, amcangyfrifir bod y costau archwilio parhaus yn £2,400 fesul lladd-dy y flwyddyn (£400 fesul ymweliad a 6 archwiliad y flwyddyn). Amcangyfrifir bod cyfanswm y costau parhaus i'r diwydiant yn £9,600 y flwyddyn.

<u>Costau RPA</u>

- Bydd cost hefyd i'r RPA archwilio pob lladd-dy. Amcangyfrifir bod hyn yn £265 yr archwiliad. O ystyried bod pedwar lladd-dy yng Nghymru sydd â llif o 2,000 o ddefaid yr wythnos o leiaf, ac y tybir y bydd pob un yn cael ei archwilio chwe gwaith y flwyddyn, amcangyfrifir mai'r gost barhaus i'r RPA yw £6,360 y flwyddyn.

<u>Crynodeb o'r costau ar gyfer Opsiwn 2</u>

| | **Blwyddyn 1** | **Cost flynyddol barhaus** |
|---|---|---|
| **Busnes** | | |
| Ymgyfarwyddo | £500 | |
| Ailhyfforddi | £2,440-£7,320 | |
| Archwilio | | £9,600 |
| **RPA** | | |
| Archwilio | | £6,360 |

**Opsiwn 3: Ymestyn rheoliadau i gwmpasu lladd-dai llai hefyd**

- Gellid ymestyn yr opsiwn a ffefrir fel ei fod yn ofynnol hefyd i weithredwyr ar raddfa lai, sy'n lladd rhwng 1,000 a 2,000 o ddefaid yn wythnosol ar gyfartaledd, gydymffurfio â'r rheoliadau newydd o ran dosbarthu ac adrodd am brisiau. Mae hyn yn groes i'r opsiwn a ffefrir lle mae gan y lladd-dai hyn y penderfyniad i optio i mewn i reoliadau newydd drwy roi hysbysiad i Weinidogion Cymru o'u bwriad i wneud hynny. Mae'r data diweddaraf gan yr RPA yn dangos nad oes lladd-dai yng Nghymru ar hyn o bryd yn lladd rhwng 1,000 a 2,000 o ddefaid yr wythnos ac felly, fel y mae pethau, ni fyddai'r opsiwn hwn yn golygu unrhyw gostau ychwanegol o'i gymharu ag Opsiwn 2. Fodd bynnag, pe bai unrhyw un o'r lladd-dai eraill yng Nghymru yn cynyddu eu llif wythnosol ac yn mynd dros y trothwy o 1,000 o ddefaid, yna byddai disgwyl iddynt ysgwyddo costau uned tebyg i'r rhai a nodir o dan Opsiwn 2. Yn yr un modd, byddai'r RPA yn ysgwyddo costau archwilio ychwanegol pe bai unrhyw un o'r lladd-dai yn cyrraedd y trothwy is.

- O ystyried bod llif cyfunol y 10 lladd-dy llai ar hyn o bryd yn cynrychioli llai na 5% o gyfanswm Cymru, ystyrir ei bod yn anghymesur ymestyn y gofynion ar sail orfodol i gynnwys y lladd-dai hynny sy'n lladd llai na 2,000 o ddefaid yr wythnos.

**Asesu'r Gystadleuaeth**

- Nid yw'r ddeddfwriaeth yn effeithio ar fusnesau bach neu feicro. Er mwyn lleihau effaith y gofynion ar fusnesau bach neu fusnesau meicro (sy'n cyflogi hyd at 50 o bobl), y dull a ddefnyddir yw creu esemptiad o'r Rheoliadau yn seiliedig ar nifer y defaid sy'n cael eu lladd bob wythnos yn y lladd-dy. Dim ond os ydynt yn lladd o leiaf 2,000 o ddefaid yr wythnos fel cyfartaledd blynyddol treigl y bydd lladd-dai yn ddarostyngedig yn awtomatig i ofynion y Rheoliadau newydd. Gall lladd-dai sy'n lladd rhwng 1,000 a 1,999 o ddefaid yr wythnos ddewis a hoffent optio i mewn i'r cynllun gorfodol. Bydd hyn yn osgoi gorfodi beichiau rheoleiddiol a gweinyddol ychwanegol ar ladd-dai llai.

- Ni fydd unrhyw effaith, neu unrhyw effaith sylweddol, ar y sector cyhoeddus oherwydd bod gan yr RPA gyfundrefn archwilio lladd-dai sefydledig eisoes. Mae hyn yn cynnwys llawer o'r lladd-dai mwy, y mae rhai ohonynt hefyd yn lladd defaid. Mae'r RPA hefyd wedi cadarnhau bod y cyllid presennol yn ddigonol i ymgorffori gofynion ychwanegol y Rheoliadau hyn.

**Adolygu ar ôl gweithredu**

- Bydd data llinell sylfaen am ddosbarthu carcasau defaid yn cael eu casglu a'u coladu'n wythnosol oddi wrth ladd-dai y mae'n ofynnol iddynt

adrodd am ddata prisiau i'r AHDB o fewn gofynion y Rheoliadau.

- Bydd yr wybodaeth hon yn rhoi syniad ynghylch a yw'r cynllun wedi cyflawni ei amcan o wella'r wybodaeth sydd ar gael i gynhyrchwyr a'r diwydiant ehangach, ac i ba raddau.

- Bydd gwaith monitro cydymffurfiaeth yn cael ei wneud gan RPA a bydd adborth gan y diwydiant yn cael ei alinio â maes deddfwriaeth cig eidion a phorc drwy gyfarfodydd rhanddeiliaid y Cynllun Technegol Cig.